# Asesiad anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru hyd at 2037

Ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Housing LIN

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 6
2. Model rhagfynegi anghenion tai a llety ('offeryn') ..... 7
3. Asesiad o anghenion tai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ..... 9
3.1. Sir Gaerfyrddin ..... **Error! Bookmark not defined.**
3.2. Ceredigion ..... 19
3.3. Sir Benfro ..... **Error! Bookmark not defined.**
4. Cyd-destun a thueddiadau: Tai â chymorth hirdymor ..... 36
5. Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru: Crynodeb o anghenion tai a goblygiadau comisiynu ..... 40

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig asesiad o anghenion tai a llety pobl ag anableddau dysgu ar draws ôl troed Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru am y 10-20 mlynedd nesaf.

Bwriedir defnyddio'r sail tystiolaeth feintiol hwn yn un ffynhonnell o dystiolaeth o anghenion tai i'r dyfodol ymhlith pobl ag anableddau dysgu *ynghyd â* ffynonellau data eraill sydd ar gael i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC), megis, er enghraifft, ymchwil ansoddol gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr mewn gwahanol ardaloedd.

Datblygwyd model i ragfynegi anghenion tai yn sail ar gyfer proffwydo anghenion tai pobl ag anableddau dysgu. Defnyddiwyd hwn er mwyn cynhyrchu asesiad o anghenion i'r dyfodol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro er mwyn cynnig asesiad o anghenion tai i'r dyfodol ar lefel awdurdodau lleol a PGGC.

**Y sefyllfa bresennol a'r angen am dai i'r dyfodol**

Mae 46% o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed yng **Ngorllewin Cymru** yn byw gyda'u teulu/gofalwyr anffurfiol.

Mae dewisiadau llety a thai yn gymharol gyfyngedig; y prif ddewisiadau yw lle mewn cartref gofal preswyl neu fyw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir. Yn hanesyddol, cafwyd tueddiad i fod yn orddibynnol ar ddefnyddio gofal preswyl sydd yn llawer uwch na'r cyfartaledd Cymreig.

Mae tai â chymorth yn tueddu bod ar gael yn bennaf mewn lleoliadau lle y bu eiddo ar gael am gost isel. Cymharol ychydig o ddewisiadau tai a llety sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ardaloedd mwy gwledig.

Mae'r holl drefniadau byw â chymorth yn rhai i'w rhentu; nid yw'n ymddangos fod unrhyw drefniadau perchnogaeth tai ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth o dai ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth o ran anghenion ymddygiad neu anghenion iechyd/gofal cymdeithasol cymhleth yn gymharol gyfyngedig.

Amcangyfrifir y bydd angen tua 190 o unedau tai ychwanegol erbyn 2027 a 340 o unedau ychwanegol erbyn 2037. Ceir crynodeb o hyn yn y tabl isod.

| **Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru** | **Cyflenwad presennol** | **Amcangyfrif o'r angen 2027** | **Amcangyfrif o'r angen 2037** |
|---|---|---|---|
| *Poblogaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu* | *1404* | *1488* | *1578* |
| Mathau o dai a llety | | | |
| Gofal preswyl | 266 | 211 | 149 |
| Cysylltu Bywydau | 76 | 112 | 161 |
| Tai/byw â chymorth | 299 | 433 | 529 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 129 | 143 | 169 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 634 | 588 | 569 |
| Cyfansymiau | 1404 | 1488 | 1578 |
| **Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau)** | | **185** | **354** |

**Y goblygiadau i gomisiynwyr Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn ar ehangu dewisiadau tai a chwrdd â'r angen am dai a llety ychwanegol hyd at 2037, mae'r goblygiadau comisiynu yn cynnwys:

- Datblygu, ar raddfa sy'n gweddu i leoliadau yng Ngorllewin Cymru, 'glystyrau' bychain o fflatiau hunan-gynhaliol (6-10 uned) gyda chymorth 24/7 er mwyn cynnig dewis arall yn lle tai â chymorth a rennir a gofal preswyl.
- Datblygu cynlluniau tai â chymorth ar sail ranbarthol ar gyfer pobl a chanddynt yr anghenion mwyaf cymhleth er mwyn osgoi gorfod defnyddio gofal preswyl.
- Ail-ystyried y defnydd presennol o dai â chymorth a rennir er mwyn adnabod unrhyw unigolion allai symud ymlaen i fathau annibynnol o dai (megis clystyrau o fflatiau mewn tai prif ffrwd).
- Datblygu digon o dai wedi'u haddasu ar gyfer defnydd llawn i gadeiriau olwyn (fel arfer mewn tai a rennir neu mewn clwstwr o fflatiau).
- Datblygu'r cynllun Cysylltu Bywydau ymhellach, e.e. er mwyn gallu rhoi gwell cefnogaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth i 'symud ymlaen' wedi iddynt feithrin rhagor

o sgiliau byw'n annibynnol; chwilio am ofalwyr all gynnig mwy o gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a chanddynt anghenion mwy heriol.

- Ystyried ail-ddefnyddio neu 'ail-fodelu' rhai o'r gwasanaethau gofal preswyl presennol, gan gynnwys y posibilrwydd o 'ddad-gofrestru'.
- Gwneud darpariaeth ychwanegol mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol presennol a newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Datblygu atgyfeiriadau gwybodaeth a chyngor ar gyfer teuluoedd/gofalwyr pobl ag anableddau dysgu sy'n esbonio'r dewisiadau ar gyfer buddsoddi mewn/datblygu dewisiadau tai ar gyfer yr aelod o'u teulu sy'n anabl yng nghyd-destun cynnig eglurder o ran faint o arian mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu ar gyfer pecynnau gofal mewn trefniadau o'r fath.
- Cynllunio'n systematig gyda gofalwyr hŷn (a chanddynt blant wedi tyfu i fyny ag anableddau dysgu yn byw gyda nhw) ar gyfer y dewisiadau tai a gofal/cymorth sydd eu hangen ar gyfer eu plant sy'n oedolion, yn enwedig felly ar gyfer gofalwyr 75 oed a throsodd.
- Adnabod carfannau o bobl ifanc 15-17 oed, yn enwedig felly rai ag anghenion cymhleth, fyddai fel arall mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal preswyl, er mwyn comisiynu dewisiadau byw â chymorth eraill.
- Gweithio gyda nifer o ddarparwyr tai er mwyn meithrin diddordeb mewn datblygu cymysgedd ehangach o ddewisiadau tai â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys eu gwybodaeth am a'u harbenigedd yn, er enghraifft, datblygu cynlluniau tai â chymorth cost uwch ac wedi'u hariannu'n breifat gan ddefnyddio rheoliadau 'llety eithriedig' Budd-dal Tai.

# 1. Cyflwyniad

Mae hwn yn adroddiad gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai (RhDGT)[1]. Mae'n seiliedig ar gais gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC) sy'n awyddus i adeiladu ar ei gwaith presennol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu trwy gynnal dadansoddiad rhanbarthol o anghenion tai/llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ar draws ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIHDd), gan gynnwys y sawl a gefnogir i fyw y tu allan i'r rhanbarth a'r sawl sy'n mynd trwy'r trosglwyddiad o wasanaethau plant.

Bwriedir defnyddio'r sail tystiolaeth feintiol hwn yn un ffynhonnell o dystiolaeth o anghenion tai i'r dyfodol ymhlith pobl ag anableddau dysgu *ynghyd â* ffynonellau data eraill sydd ar gael i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC), megis, er enghraifft, ymchwil ansoddol gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr mewn gwahanol ardaloedd.

Trefnir yr adroddiad fel a ganlyn:

- Braslun o ddull y model rhagfynegi anghenion tai/llety ('offeryn').
- Asesiad o anghenion tai/llety ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, h.y. defnyddio'r model rhagfynegi anghenion tai.
- Cyd-destun a thueddiadau: tai â chymorth hirdymor.
- Crynodeb o anghenion tai pobl ag anableddau dysgu ar draws ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

[1] https://www.housinglin.org.uk/

## 2. Model rhagfynegi anghenion tai a llety ('offeryn')

Cynigiwyd y dylid defnyddio model neu 'offeryn' rhagfynegi anghenion tai yn sail ar gyfer rhagfynegi anghenion tai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae'r model neu 'offeryn' rhagfynegi anghenion tai yn cynnwys yr elfennau canlynol:

A. Poblogaeth waelodlin

Mae'r boblogaeth waelodlin yn defnyddio'r boblogaeth bresennol o oedolion ag anableddau dysgu 18 oed+ ar gyfer Sir Gaerfyrddin/Ceredigion/Sir Benfro sy'n gymwys i dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Sefydlwyd hyn gan ddefnyddio data eilaidd o ddata gofal cymdeithasol oedolion yr awdurdod ar gyfer 2017/18.

B. Statws tai/llety presennol

Mae'r model neu 'offeryn' rhagfynegi yn defnyddio data awdurdodau lleol i sefydlu statws tai/llety presennol y boblogaeth o oedolion sy'n hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys:

- Y boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu wedi'u rhannu yn ôl:
    - Y nifer/% sy'n byw gyda'r teulu neu ofalwyr anffurfiol eraill.
    - Y nifer/% sy'n byw mewn gofal preswyl.
    - Y nifer/% sy'n byw mewn Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion).
    - Y nifer/% sy'n byw mewn tai â chymorth/byw â chymorth.
    - Y nifer/% sy'n byw mewn mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal.

C. Rhagfynegi'r boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu i'r dyfodol ar gyfer pob awdurdod, gan roi ystyriaeth i ffactorau lleol a chenedlaethol perthnasol (e.e. y cynnydd yn nifer y genedigaethau byw o blant a chanddynt anableddau difrifol), hyd at 2037.

Mae hyn yn defnyddio data eilaidd o Lywodraeth Cymru[2]. Mae'r boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yn seiliedig ar y bobl hynny sydd wedi cofrestru gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ac y rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt.

D. Defnyddio 'meincnodau' a gytunwyd ar gyfer mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer y boblogaeth a amcangyfrifir hyd at 2037 er mwyn rhagfynegi'r anghenion tai.

Mae hyn yn seiliedig ar:

- Gymhariaeth o 'feincnodau' cyfartalog Cymru ar gyfer y mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig felly'r defnydd o ofal preswyl.
- Rhagdybiaethau o ran ffactorau twf poblogaeth yn yr angen am dai.
- Dadansoddiad o'r ddarpariaeth o dai a llety ar hyn o bryd er mwyn adnabod bylchau posib yn y ddarpariaeth a gor/tan gyflenwad posib o fathau penodol o ddewisiadau tai/llety.
- Trafodaeth ansoddol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a staff eraill er mwyn adnabod bwriadau comisiynu i'r dyfodol.

E. Adnabod anghenion tai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i'r dyfodol

Mae hyn yn adnabod newidiadau mewn gofynion net am dai er mwyn diwallu'r angen am dai a ragfynegir a newidiadau yn y mathau o dai/llety sydd eu hangen ar gyfer ardal PGGC ac ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ddatblygwyd ar gyfer Cam D ar y ddarpariaeth bresennol o dai/llety yng Ngham B. Yna caiff hyn ei addasu ar gyfer y newid yn y boblogaeth a nodwyd dros amser o Gam C.

Dylid nodi efallai na fydd yr holl ffigyrau yn y tablau yn cyfannu oherwydd talgrynnu.

[2] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/personswithlearningdisabilities-by-localauthority-service-agerange

# 3. Asesiad o anghenion tai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Defnyddiwyd y model rhagfynegi anghenion tai/llety ('offeryn') a amlinellir yn adran 2 ar gyfer y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro ar wahân.

## 3.1. Sir Gaerfyrddin

A. Sefydlu'r boblogaeth waelodlin

Ar gyfer 2017/18 y boblogaeth waelodlin o oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin oedd 677 unigolyn (Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin/BIHDd). Dangosir statws tai/llety y 677 unigolyn yma yn adran B (isod).

B. Adnabod statws a nodweddion tai/llety y boblogaeth waelodlin

Mae Tabl 1 yn nodi'r mathau o dai/llety y mae'r boblogaeth waelodlin yn Sir Gaerfyrddin yn byw ynddynt

Tabl 1. Statws tai/llety y boblogaeth waelodlin

| **Darpariaeth o lety/tai** | **Nifer y bobl a letyir** |
|---|---|
| Ar gyfer y boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu ar gyfer pob awdurdod, y ddarpariaeth o lety/tai a'r mathau ohonynt | *677 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu.* |
| • gofal preswyl | *114* |
| • gofal nyrsio | *Dim* |
| • llety diogel | *1* |
| • Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion) | *47* |
| • tai â chymorth/byw â chymorth | *136* |
| • mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | *32* |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin/BIHDd

Yn fyr, o'r 677 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin:

- mae 17% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl.

- mae 7% yn byw mewn lleoliadau oedolion.
- mae 20% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth.
- mae 5% yn byw mewn tai annibynnol gyda phecyn cymorth/gofal.

Goblygiad y patrwm hwn o ddarpariaeth o dai/llety yw bod 347 (51%) o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu neu ofalwyr anffurfiol.

Mae Tabl 2 yn dangos lleoliad lleoliadau gofal preswyl.

Tabl 2. Lleoliad lleoliadau gofal preswyl, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| | Yn Sir Gaerfyrddin | Mewn rhannau eraill o Gymru | Yn Lloegr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoliadau gofal preswyl | 79 | 30 | 5 | 114 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Dangosir lleoliadau lleoliadau oedolion yn Nhabl 3.

Tabl 3. Lleoliad lleoliadau oedolion Cysylltu Bywydau, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| Lleoliad | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| Rhydaman | 4 |
| Porth Tywyn | 3 |
| Caerfyrddin | 1 |
| Hwlffordd | 1 |
| Cydweli | 5 |
| Llandeilo | 2 |
| Llanymddyfri | 1 |
| Llanelli | 22 |
| Llangadog | 1 |
| Castell Nedd Port Talbot | 1 |
| Sir Benfro | 5 |
| Abertawe | 1 |
| | |
| **Cyfanswm** | **47** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Dangosir lleoliadau tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth yn Nhabl 4.

Tabl 4. Lleoliad tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| Lleoliadau Byw â chymorth | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| Rhydaman | 30 |
| Porth Tywyn | 2 |
| Caerfyrddin | 8 |
| Cydweli | 4 |
| Llanelli | 74 |
| Llangadog | 5 |
| Sir Benfro | 1 |
| Pencader | 2 |
| Abertawe | 8 |
| **Cyfanswm** | **134**[3] |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Tabl 5 yn dangos y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o dai.

Tabl 5. Darpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o dai (%)

| Tŷ a rennir | Byngalo a rennir | Byngalo – meddiannaeth unigol | Fflat | Fflat – ‘clwstwr’ o fflatiau ar yr un safle | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 79% | 9% | <1% | 5% | 6% | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Tabl 6 yn dangos maint y tai a rennir y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt.

Tabl 6. Maint y tai a rennir y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt (%)

| Tŷ 2 ystafell wely | Tŷ 3 ystafell wely | Tŷ 4 ystafell wely | Tŷ 5 ystafell wely | Tŷ 6 ystafell wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 24% | 36% | 26% | 6% | 8% | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Tabl 7 yn dangos y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord.

Tabl 7. Y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord (%)

| Landlord preifat | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Awdurdod Lleol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44% | 50% | 6% | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

[3] Mae 2 unigolyn a ariennir gan y GIG hefyd yn byw mewn tai â chymorth.

Mae Tabl 8 yn dangos y lefel o ofal a ddarperir ac i ba raddau mae'r ddarpariaeth o dai â chymorth yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Tabl 8. Lefel y ddarpariaeth o ofal a'i haddasrwydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, y ddarpariaeth o dai â chymorth (%)

| Gofal ar y safle24/7 | Llai na 24/7 o ofal ar y safle | Yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn | Ddim yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn |
|---:|---:|---:|---:|
| 92% | 8% | 46% | 54% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Dangosir lleoliadau tai annibynnol lle y mae'r person ag anabledd dysgu yn derbyn pecyn gofal/cymorth yn Nhabl 9.

Tabl 9. Lleoliad tai annibynnol lle y mae'r person ag anabledd dysgu yn derbyn pecyn gofal/cymorth 2017/18

| Lleoliad | Nifer y Cleientiaid |
|---|---:|
| Rhydaman | 4 |
| Porth Tywyn | 1 |
| Caerfyrddin | 3 |
| Cydweli | 1 |
| Llandeilo | 2 |
| Llanelli | 12 |
| Llandysul | 1 |
| Sir Fynwy | 1 |
| Abertawe | 1 |
| **Cyfanswm** | **26**[4] |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin

Yn gryno, nodweddion y ddarpariaeth o dai/llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin yw:

- mae 17% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl. O blith y rhain, mae 31% yn byw y tu allan i Sir Gaerfyrddin.
- mae 7% yn byw mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau i oedolion. O blith y rhain, mae 47% yn byw yn Llanelli ac mae 15% yn byw mewn lleoliadau oedolion y tu allan i Sir Gaerfyrddin.
- mae 20% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth. O blith y rhain:
  - mae 55% yn byw yn Llanelli.
  - mae 22% yn byw yn Rhydaman.
  - mae 6% yn byw yn Abertawe.
  - Mae'r 17% arall yn byw mewn lleoliadau ar draws Sir Gaerfyrddin.

[4] Mae 2 unigolyn a ariennir gan y GIG hefyd yn byw mewn tai prif ffrwd

- Mae 79% yn byw mewn tai a rennir. Mae'r rhan fwyaf o'r tai a rennir hyn yn cynnwys tai 2/3/4 ystafell wely.
- Dim ond 11% sy'n byw mewn fflat, mae 6% yn byw mewn fflat sy'n rhan o 'glwstwr' bychain o fflatiau.
- Mae 92% o'r ddarpariaeth o dai â chymorth yn cynnwys gofal 24/7 ar y safle.
- Dywedir fod 46% o dai â chymorth yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae mwyafrif yr oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed yn byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol. Mae dewisiadau llety a thai yn gymharol gyfyngedig; y prif ddewisiadau yw trefniant byw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir neu leoliad oedolyn. Mae'r rhan fwyaf o dai â chymorth a lleoliadau oedolion ar gael yn Llanelli. Mae'r holl drefniadau byw â chymorth yn rhai i'w rhentu; nid yw'n ymddangos fod unrhyw drefniadau perchnogaeth tai ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Cymharol ychydig o ddewisiadau tai a llety sydd ar gael ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o Sir Gaerfyrddin.

Darperir cyfran gymharol uchel o dai â chymorth gan landlordiaid preifat; efallai fod hyn yn adlewyrchu amharodrwydd cymharol anarferol landlordiaid preifat i gynnig eiddo ar drefniadau gosod hirdymor i bobl ag anableddau.

Dywedir fod canran cymharol uchel o'r tai â chymorth sydd ar gael yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

C. Rhagfynegi'r boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu i'r dyfodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Dangosir y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu, yn seiliedig ar y bobl a gofrestrwyd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Nhabl 10.

Tabl 10. Nifer y bobl ag anableddau dysgu ar gofrestri awdurdodau lleol (Cymru)

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---:|
| 2007 | 13,933 |
| 2008 | 14137 |
| 2009 | 14068 |
| 2010 | 14771 |
| 2011 | 14423 |
| 2012 | 14701 |
| 2013 | 15029 |
| 2014 | 15297 |
| 2015 | 15010 |
| 2016 | 14729 |
| 2017 | 14787 |

Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2017)

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol. Cafwyd gostyngiad yn y nifer cyffredinol rhwng 2014 a 2017, ond er 2007 mae'r boblogaeth gyffredinol o bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol wedi cynyddu o 13,933 yn 2007 i 14,787 yn 2017, cynnydd o 6%. Mae

dadansoddiad o'r data ar y gofrestr anableddau dysgu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn dangos mai un o'r prif resymau pam y cafwyd twf yn y boblogaeth yn gyffredinol yw cynnydd yn y boblogaeth 65+ oed, h.y. wrth i bobl ag anableddau dysgu gyrraedd lefelau disgwyliad oes nodweddiadol. Rheswm arall yw fod plant ag anableddau yn cyrraedd 18 oed ac yn dod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau oedolion (cyfnod ym mywydau pobl ifanc a elwir yn 'drosglwyddiad').

Dangosir sut y defnyddir y duedd gyffredinol ymhlith y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru ar gyfer y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn Nhabl 11. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin yn newid yn unol â newidiadau yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru'n gyffredinol
- Rhagdybir cynnydd parhaus o 6% bob 10 mlynedd yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys twf poblogaeth disgwyliedig ymhlith:
    - Poblogaeth gynyddol o oedolion hŷn ag anableddau dysgu
    - Pobl ifanc ag anableddau yn dod yn oedolion

Tabl 11. Amcangyfrif o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed hyd at 2037

| 2017 | 2022 | 2027 | 2032 | 2037 |
|---:|---:|---:|---:|---:|
| 677 | 697 | 718 | 739 | 761 |

D. Defnyddio 'meincnodau' a gytunwyd ar gyfer mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu a amcangyfrifir hyd at 2037.

Mae hyn yn seiliedig ar:

- Gymhariaeth o 'feincnodau' cyfartalog Cymru ar gyfer y mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig felly'r defnydd o ofal preswyl.
- Rhagdybiaethau o ran ffactorau twf poblogaeth yn yr angen am dai.
- Dadansoddiad o'r ddarpariaeth o dai a llety ar hyn o bryd er mwyn adnabod bylchau posib yn y ddarpariaeth a gor/tan gyflenwad posib o fathau penodol o ddewisiadau tai/llety.
- Trafodaeth ansoddol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a staff eraill er mwyn adnabod bwriadau comisiynu i'r dyfodol.

Daw'r wybodaeth am y mathau gwahanol o dai/llety a ddefnyddir gan bobl ag anableddau dysgu o adroddiadau awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o'r data hwn[5] yn cynnig meincnodau cymharol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro o'i gymharu â'r defnydd nodweddiadol o ofal preswyl a wneir gan bobl ag anableddau dysgu

[5] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/personswithlearningdisabilities-by-localauthority-service-agerange

yng Nghymru'n gyffredinol. Dangosir hyn yn Nhabl 12; mae'n dangos y canran o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro o'i gymharu â'r ganran nodweddiadol o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yng Nghymru'n gyffredinol.

Tabl 12. Oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl (% o'r cyfanswm) o gymharu â Chymru.

| | **Sir Gaerfyrddin** | **Ceredigion** | **Sir Benfro** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd o ofal preswyl (yn % o gyfanswm y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu) | 17% | 19% | 22% | 9.69% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er mwyn amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol mae'n rhesymol rhagdybio y dylai'r defnydd o ofal preswyl ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro ostwng i'r cyfartaledd Cymreig erbyn 2027, h.y. erbyn hynny na fydd mwy na 9.69% o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yn byw mewn gofal preswyl yng Ngorllewin Cymru.

Ar gyfer Sir Gaerfyrddin mae hyn yn awgrymu:

- Gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl o tua 17% i tua 9% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.
- Cynnydd cyfatebol yn y defnydd o dai/trefniadau byw â chymorth o tua 20% i tua 33% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae 51% o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu a gofalwyr anffurfiol. Wrth i rai o'r gofalwyr hynny heneiddio a/neu nad ydynt mwyach yn gallu cyflawni'r rôl ofalu hon am resymau eraill, gellir rhagdybio y bydd cyfran o'r 51% yma yn chwilio am fath arall o gartref. Ar sail y math yma o asesiad o anghenion tai ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a gynhaliwyd ar gyfer awdurdodau lleol eraill, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd hyd at 15% o'r garfan hon o'r boblogaeth o oedolion yn chwilio am dai/llety arall erbyn 2027. Yn ymarferol, golyga hynny, o blith y 347 o oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol, y byddai 15% (h.y. 52 o bobl) angen mathau eraill o gartref.

Pe bai'r angen ychwanegol hwn am lety yn cael ei ddiwallu'n gyfartal trwy dai/trefniadau byw â chymorth a lleoliadau oedolion, byddai hynny'n creu'r angen am:

- dwf yn y ddarpariaeth o leoliadau oedolion er mwyn darparu 12% o'r llety yn gyffredinol.
- tai/byw â chymorth yn darparu 33% o'r llety yn gyffredinol (gan gynnwys y gostyngiad o 6% yn y defnydd o ofal preswyl).

Dangosodd trafodaethau cychwynnol gyda chomisiynwyr Sir Gaerfyrddin mai'r bwriad comisiynu i'r dyfodol yw:

- Lleihau'r defnydd o ofal preswyl.
- Cynyddu'r defnydd o dai/byw â chymorth, gan gynnwys ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.
- Cynyddu'r gymysgedd o ddewisiadau a lleoliadau tai â chymorth.

Mae dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol o dai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin yn dangos:

- Y cafwyd gor ddefnydd hanesyddol o ofal preswyl o gymharu â'r cyfartaledd Cymreig.
- Fod tai/byw â chymorth wedi cael eu canolbwyntio ar fodel tai a rennir.
- Y cafodd tai â chymorth a lleoliadau oedolion eu canolbwyntio'n ddaearyddol yn Llanelli.

Yn fyr, dangosir y meincnodau, yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, a ddefnyddir fel rhan o'r broses o amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol, yn Nhabl 13.

Tabl 13. Amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol: meincnodau mathau o dai/llety

| Math o lety/tai | Lefel y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2017 | Meincnod ar gyfer y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2037 |
|---|---:|---:|
| Gofal preswyl | 17% | 9% |
| Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion) | 7% | 12% |
| Tai â chymorth/byw â chymorth | 20% | 33% |
| Mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | 4% | 4% |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 51% | 42% |

E. Amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae hyn yn adnabod newidiadau mewn gofynion net am dai er mwyn diwallu'r angen am dai a ragfynegir a newidiadau yn y mathau o dai/llety sydd eu hangen ar gyfer ardal PGGC ac ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ddatblygwyd ar gyfer Cam D ar y ddarpariaeth bresennol o dai/llety yng Ngham B. Yna caiff hyn ei addasu ar gyfer y newid yn y boblogaeth a nodwyd dros amser o Gam C.

Ceir crynodeb isod o'r amcangyfrif o anghenion tai/llety yn Nhabl 14.

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 94 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2027. Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 115[6] i 86.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 47 i 57.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 136 uned i 215 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 32 uned i 36 uned.

[6] Yn cynnwys 1 unigolyn yn byw mewn lleoliad diogel

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 158 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2037.

Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 115 i 68.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 47 i 76.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 136 uned i 251 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 32 uned i 46 uned.

Tabl 14. Sir Gaerfyrddin. Anghenion tai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu hyd at 2037

| | **Y boblogaeth o oedolion 2017** | **% meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety** | **Y boblogaeth o oedolion 2027** | **% meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety** | **Y boblogaeth o oedolion 2037** | **% meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o dai a llety | 677 | | 718 | | 761 | |
| Gofal preswyl | 115 | 17 | 86 | 12 | 68 | 9 |
| Cysylltu Bywydau | 47 | 7 | 57 | 8 | 76 | 10 |
| Tai/byw â chymorth | 136 | 20 | 215 | 30 | 251 | 33 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 32 | 5 | 36 | 5 | 46 | 6 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 347 | 51 | 323 | 45 | 319 | 42 |
| Cyfansymiau | 677 | 100 | 718 | 100 | 761 | 100 |
| Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau) | | | 94 | | 158 | |

## 3.2. Ceredigion

A. Sefydlu'r boblogaeth waelodlin

Ar gyfer 2017/18 y boblogaeth waelodlin o oedolion ag anableddau dysgu yng Ngheredigion oedd 306 unigolyn (Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion/BIHDd). Dangosir statws tai/llety y 306 unigolyn yma yn adran B (isod).

B. Adnabod statws a nodweddion tai/llety y boblogaeth waelodlin

Mae Tabl 15 yn nodi'r mathau o dai/llety y mae'r boblogaeth waelodlin yng Ngheredigion yn byw ynddynt

Tabl 15. Statws tai/llety y boblogaeth waelodlin

| **Darpariaeth o lety/tai** | **Nifer y bobl a letyir** |
|---|---|
| Ar gyfer y boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu ar gyfer pob awdurdod, y ddarpariaeth o lety/tai a'r mathau ohonynt | *306 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu.* |
| • Gofal preswyl | *59* |
| • Gofal nyrsio | *0* |
| • Llety diogel | *0* |
| • Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion0 | *11* |
| • Tai â chymorth/byw â chymorth | *53* |
| • Mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | *41* |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion/BIHDd

Yn fyr, o'r 306 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu yng Ngheredigion:

- Mae 19% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl.
- Mae 4% yn byw mewn lleoliadau oedolion.
- Mae 17% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth.
- Mae 13% yn byw mewn tai annibynnol gyda phecyn cymorth/gofal.

Goblygiad y patrwm hwn o ddarpariaeth o dai/llety yw bod 142 (46%) o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu neu ofalwyr anffurfiol.

Mae Tabl 16 yn dangos lleoliad lleoliadau gofal preswyl.

Tabl 16. Lleoliad lleoliadau gofal preswyl, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| | Yng Ngheredigion | Mewn rhannau eraill o Gymru | Yn Lloegr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoliadau gofal preswyl | 23 | 34 | 2 | 59 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion/BIHDd

Dangosir lleoliadau tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth yn Nhabl 17.

Tabl 17. Lleoliad tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| Lleoliadau Byw â Chymorth | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| Aberystwyth | 33 |
| Aberteifi | 8 |
| Felinfach | 2 |
| Llangrannog | 3 |
| Gwynedd | 6 |
| Sir Benfro | 1 |
| **Cyfanswm** | **53** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Mae Tabl 18 yn dangos y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o dai.

Tabl 18. Darpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o dai (%)

| Tŷ a rennir | Byngalo a rennir | Byngalo – meddiannaeth unigol | Fflat | Fflat – 'clwstwr' o fflatiau ar yr un safle | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 60 | 30 | 5 | 0 | 5 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Mae Tabl 19 yn dangos maint y tai a rennir y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt.

Tabl 19. Maint y tai a rennir y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt (%)

| Tŷ 2 ystafell wely | Tŷ 3 ystafell wely | Tŷ 4 ystafell wely | Tŷ 5 ystafell wely | Tŷ 6 ystafell wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 20 | 58 | 5 | 5 | 98[7] |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Mae Tabl 20 yn dangos y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord.

Tabl 20. Y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord (%)

[7] Rhagdybir fod y 2% arall yn byw mewn mathau/meintiau eraill o dai a rennir

| Landlord preifat | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Awdurdod Lleol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 0 | 95 | 5 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Mae Tabl 21 yn dangos y lefel o ofal a ddarperir ac i ba raddau mae'r ddarpariaeth o dai â chymorth yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Tabl 21. Lefel y ddarpariaeth o ofal a'i haddasrwydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, y ddarpariaeth o dai â chymorth (%)

| Gofal ar y safle24/7 | Llai na 24/7 o ofal ar y safle | Yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn | Ddim yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn |
|---|---|---|---|
| 75 | 25 | 50 | 50 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Yn gryno, nodweddion y ddarpariaeth o dai/llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yng Ngheredigion yw:

- mae 19% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl. O blith y rhain, mae 60% yn byw y tu allan i Geredigion.
- mae 4% yn byw mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau i oedolion.
- mae 17% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth. O blith y rhain:
    - mae 11% yn byw yng Ngwynedd
    - mae 2% yn byw yn Sir Benfro
    - mae'r 87% arall yn byw mewn lleoliadau ar draws Ceredigion.

Mae mwyafrif yr oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed yn byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol. Mae dewisiadau llety a thai yn gymharol gyfyngedig; y prif ddewisiadau yw cartref gofal preswyl neu drefniant byw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir. Mae'r rhan fwyaf o dai â chymorth ar gael yn Aberystwyth. Mae'r holl drefniadau byw â chymorth yn rhai i'w rhentu; nid yw'n ymddangos fod unrhyw drefniadau perchnogaeth tai ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.  Cymharol ychydig o ddewisiadau tai a llety sydd ar gael ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o Geredigion.

Dywedir fod 50% o'r tai â chymorth sydd ar gael yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

B. Rhagfynegi'r boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu i'r dyfodol ar gyfer Ceredigion.

Dangosir y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu, yn seiliedig ar y bobl a gofrestrwyd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Nhabl 22.

Tabl 22. Nifer y bobl ag anableddau dysgu ar gofrestri awdurdodau lleol (Cymru)

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2007 | 13,933 |
| 2008 | 14137 |
| 2009 | 14068 |
| 2010 | 14771 |
| 2011 | 14423 |
| 2012 | 14701 |
| 2013 | 15029 |
| 2014 | 15297 |
| 2015 | 15010 |
| 2016 | 14729 |
| 2017 | 14787 |

Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2017)

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol. Cafwyd gostyngiad yn y nifer cyffredinol rhwng 2014 a 2017, ond er 2007 mae'r boblogaeth gyffredinol o bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol wedi cynyddu o 13,933 yn 2007 i 14,787 yn 2017, cynnydd o 6%. Mae dadansoddiad o'r data ar y gofrestr anableddau dysgu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn dangos mai un o'r prif resymau pam y cafwyd twf yn y boblogaeth yn gyffredinol yw cynnydd yn y boblogaeth 65+ oed, h.y. wrth i bobl ag anableddau dysgu gyrraedd lefelau disgwyliad oes nodweddiadol. Rheswm arall yw fod plant ag anableddau yn cyrraedd 18 oed ac yn dod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau oedolion (cyfnod ym mywydau pobl ifanc a elwir yn 'drosglwyddiad').

Dangosir sut y defnyddir y duedd gyffredinol ymhlith y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru ar gyfer y boblogaeth yng Ngheredigion yn Nhabl 23. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Ngheredigion yn newid yn unol â newidiadau yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru'n gyffredinol
- Rhagdybir cynnydd parhaus o 6% bob 5 mlynedd yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Ngheredigion. Mae hyn yn cynnwys twf poblogaeth disgwyliedig ymhlith:
    - Poblogaeth gynyddol o oedolion hŷn ag anableddau dysgu
    - Pobl ifanc ag anableddau yn dod yn oedolion

Tabl 23. Amcangyfrif o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed hyd at 2037

| 2017 | 2022 | 2027 | 2032 | 2037 |
|---|---|---|---|---|
| 306 | 315 | 324 | 334 | 344 |

D. Defnyddio 'meincnodau' a gytunwyd ar gyfer mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu a amcangyfrifir hyd at 2037.

Mae hyn yn seiliedig ar:

- Gymhariaeth o 'feincnodau' cyfartalog Cymru ar gyfer y mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig felly'r defnydd o ofal preswyl.
- Rhagdybiaethau o ran ffactorau twf poblogaeth yn yr angen am dai.
- Dadansoddiad o'r ddarpariaeth o dai a llety ar hyn o bryd er mwyn adnabod bylchau posib yn y ddarpariaeth a gor/tan gyflenwad posib o fathau penodol o ddewisiadau tai/llety.
- Trafodaeth ansoddol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a staff eraill er mwyn adnabod bwriadau comisiynu i'r dyfodol.

Daw'r wybodaeth am y mathau gwahanol o dai/llety a ddefnyddir gan bobl ag anableddau dysgu o adroddiadau awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o'r data hwn[8] yn cynnig meincnodau cymharol ar gyfer Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro o'i gymharu â'r defnydd nodweddiadol o ofal preswyl a wneir gan bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru'n gyffredinol. Dangosir hyn yn Nhabl 24; mae'n dangos y canran o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro o'i gymharu â'r ganran nodweddiadol o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yng Nghymru'n gyffredinol.

Tabl 24. Oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl (% o'r cyfanswm) o gymharu â Chymru.

| | **Sir Gaerfyrddin** | **Ceredigion** | **Sir Benfro** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd o ofal preswyl (yn % o gyfanswm y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu) | 17% | 19% | 22% | 9.69% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er mwyn amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol mae'n rhesymol rhagdybio y dylai'r defnydd o ofal preswyl ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ostwng i'r cyfartaledd Cymreig erbyn 2027, h.y. erbyn hynny na fydd mwy na 9.69% o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yn byw mewn gofal preswyl yng Ngorllewin Cymru.

Ar gyfer Ceredigion mae hyn yn awgrymu:

- Gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl o tua 19% i tua 10% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.

[8] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/personswithlearningdisabilities-by-localauthority-service-agerange

- Cynnydd cyfatebol yn y defnydd o dai/trefniadau byw â chymorth o tua 17% i tua 30% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae 46% o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu a gofalwyr anffurfiol. Wrth i rai o'r gofalwyr hynny heneiddio a/neu nad ydynt mwyach yn gallu cyflawni'r rôl ofalu hon am resymau eraill, gellir rhagdybio y bydd cyfran o'r 46% yma yn chwilio am fath arall o gartref. Ar sail y math yma o asesiad o anghenion tai ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a gynhaliwyd ar gyfer awdurdodau lleol eraill, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd hyd at 15% o'r garfan hon o'r boblogaeth o oedolion yn chwilio am dai/llety arall erbyn 2027. Yn ymarferol, golyga hynny, o blith y 146 oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol, y byddai 15% (h.y. 22 o bobl) angen mathau eraill o gartref.

Pe bai'r angen ychwanegol hwn am lety yn cael ei ddiwallu'n gyfartal trwy dai/trefniadau byw â chymorth a lleoliadau oedolion, byddai hynny'n creu'r angen am:

- Dwf yn y ddarpariaeth o leoliadau oedolion er mwyn darparu 8% o'r holl lety sydd ar gael.
- Tai/byw â chymorth yn darparu tua 30% o'r holl lety sydd ar gael (gan gynnwys y gostyngiad o 9% yn y defnydd o ofal preswyl).

Dangosodd trafodaethau cychwynnol gyda chomisiynwyr Ceredigion mai'r bwriad comisiynu i'r dyfodol yw:

- Lleihau'r defnydd o ofal preswyl.
- Cynyddu'r defnydd o dai/byw â chymorth, gan gynnwys ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.
- Cynyddu'r gymysgedd o ddewisiadau a lleoliadau tai â chymorth.

Mae dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol o dai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yng Ngheredigion yn dangos:

- Y cafwyd gor ddefnydd hanesyddol o ofal preswyl o gymharu â'r cyfartaledd Cymreig.
- Fod tai/byw â chymorth wedi cael eu canolbwyntio ar fodel tai a rennir.
- Y cafodd tai â chymorth a lleoliadau oedolion eu canolbwyntio'n ddaearyddol yn Aberystwyth ac Aberteifi.

Yn fyr, dangosir y meincnodau, yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, a ddefnyddir fel rhan o'r broses o amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol, yn Nhabl 25.

Tabl 25. Amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol: meincnodau mathau o dai/llety

| Math o lety/tai | Lefel y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2017 | Meincnod ar gyfer y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2037 |
|---|---|---|
| Gofal preswyl | 19% | 10% |
| Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion) | 4% | 8% |

| | | |
|---|---:|---:|
| Tai â chymorth/byw â chymorth | 17% | 30% |
| Mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | 13% | 15% |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 46% | 37% |

E. Amcangyfrif anghenion tai/llety i'r dyfodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae hyn yn adnabod newidiadau mewn gofynion net am dai er mwyn diwallu'r angen am dai a ragfynegir a newidiadau yn y mathau o dai/llety sydd eu hangen ar gyfer ardal PGGC ac ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ddatblygwyd ar gyfer Cam D ar y ddarpariaeth bresennol o dai/llety yng Ngham B. Yna caiff hyn ei addasu ar gyfer y newid yn y boblogaeth a nodwyd dros amser o Gam C.

Ceir crynodeb isod o'r amcangyfrif o anghenion tai/llety yn Nhabl 26.

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 34 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2027. Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 59 i 49.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 11 i 19.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 53 uned i 75 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 41 uned i 45 uned.

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 77 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2037.

Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 59 i 34.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 11 i 28.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 53 uned i 103 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 41 uned i 52 uned.

Tabl 26. Ceredigion. Anghenion tai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu hyd at 2037

| | Y boblogaeth o oedolion 2017 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety | Y boblogaeth o oedolion 2027 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety | Y boblogaeth o oedolion 2037 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o dai a llety | 306 | | 324 | | 344 | |
| Gofal preswyl | 59 | 19 | 49 | 15 | 34 | 10 |
| Cysylltu Bywydau | 11 | 4 | 19 | 6 | 28 | 8 |
| Tai/byw â chymorth | 53 | 17 | 75 | 23 | 103 | 30 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 41 | 13 | 45 | 14 | 52 | 15 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 142 | 46 | 136 | 42 | 127 | 37 |
| Cyfansymiau | 306 | 100 | 324 | 100 | 344 | 100 |
| Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau) | | | 34 | | 77 | |

## 3.3. Sir Benfro

Defnyddiwyd y model rhagfynegi anghenion tai/llety ('offeryn') a amlinellir yn adran 2 ar gyfer y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Benfro.

A. Sefydlu'r boblogaeth waelodlin

Ar gyfer 2017/18 y boblogaeth waelodlin o oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Benfro oedd 421 unigolyn (Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion/BIHDd). Dangosir statws tai/llety y 421 unigolyn yma yn adran B (isod).

B. Adnabod statws a nodweddion tai/llety y boblogaeth waelodlin

Mae Tabl 27 yn nodi'r mathau o dai/llety y mae'r boblogaeth waelodlin yn Sir Benfro yn byw ynddynt

Tabl 27. Statws tai/llety y boblogaeth waelodlin

| Darpariaeth o lety/tai | Nifer y bobl a letyir |
|---|---|
| Ar gyfer y boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu ar gyfer pob awdurdod, y ddarpariaeth o lety/tai a'r mathau ohonynt | *421 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu.* |
| • gofal preswyl (colegau preswyl) | *89 (8)* |
| • gofal nyrsio | *0* |
| • llety diogel | *3* |
| • Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion) | *18* |
| • Tai â chymorth/byw â chymorth | *110* |
| • mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | *56* |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro/BIHDd

Yn fyr, o'r 421 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu yn Sir Benfro:

- Mae 22% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl.
- Mae 4% yn byw mewn lleoliadau oedolion.
- Mae 26% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth.
- Mae 13% yn byw mewn tai annibynnol gyda phecyn cymorth/gofal.

Goblygiad y patrwm hwn o ddarpariaeth o dai/llety yw bod 145 (34%) o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu neu ofalwyr anffurfiol.

Mae Tabl 28 yn dangos lleoliad lleoliadau gofal preswyl.

Tabl 28. Lleoliad lleoliadau gofal preswyl, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| | Yn Sir Benfro | Mewn rhannau eraill o Gymru | Yn Lloegr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoliadau gofal preswyl | 72 | 12 | 5 | 89 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Dangosir lleoliadau tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth yn Nhabl 29.

Tabl 29. Lleoliad tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth, oedolion ag anableddau dysgu 2017/18

| Lleoliadau Byw â Chymorth | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| Boncath | 3 |
| Abergwaun ac Wdig | 11 |
| Hwlffordd | 28 |
| Aberdaugleddau | 37 |
| Arberth | 4 |
| Penfro | 9 |
| Doc Penfro | 6 |
| Saundersfoot | 5 |
| Dinbych-y-Pysgod | 2 |
| Y tu allan i Sir Benfro | 5 |
| **Cyfanswm** | **110** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Mae Tabl 30 yn dangos maint yr eiddo y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt.

Tabl 30. Maint yr eiddo y mae oedolion ag anableddau dysgu yn byw ynddynt (%)

| Tŷ 2 ystafell wely | Tŷ 3 ystafell wely | Tŷ 4 ystafell wely | Tŷ 5 ystafell wely | Tŷ 6 ystafell wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 19% | 10% | 33% | 29% | 9% | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Mae Tabl 31 yn dangos y ddarpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord.

Tabl 31. Darpariaeth o dai â chymorth yn ôl y math o landlord (%)

| Landlord preifat | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Awdurdod Lleol | Y darparwr gofal yw'r landlord | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 59% | 33% | 3% | 5% | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Mae Tabl 32 yn dangos y lefel o ofal a ddarperir ac i ba raddau mae'r ddarpariaeth o dai â chymorth yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Tabl 32. Lefel y ddarpariaeth o ofal a'i haddasrwydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, y ddarpariaeth o dai â chymorth (%)

| Gofal ar y safle 24/7 | Llai na 24/7 o ofal ar y safle |
|---|---|
| 82%[9] | 18% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Dangosir lleoliadau tai annibynnol lle y mae'r person ag anabledd dysgu yn derbyn pecyn gofal/cymorth yn Nhabl 33.

Tabl 33. Lleoliad tai annibynnol lle y mae'r person ag anabledd dysgu yn derbyn pecyn gofal/cymorth 2017/18

| Lleoliad | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| Abergwaun ac Wdig | 4 |
| Hwlffordd | 18 |
| Aberdaugleddau | 12 |
| Cilgeti | 1 |
| Penfro | 9 |
| Doc Penfro | 7 |
| Dinbych-y-Pysgod | 5 |
| **Cyfanswm** | **56** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro

Yn gryno, nodweddion y ddarpariaeth o dai/llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Benfro yw:

- mae 22% yn byw mewn gwasanaethau gofal preswyl. O blith y rhain, mae 19% yn byw y tu allan i Sir Benfro.
- mae 4% yn byw mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau i oedolion.
- mae 26% yn byw mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth. O blith y rhain:
    - mae 34% yn byw yn Aberdaugleddau.
    - mae 25% yn byw yn Hwlffordd.
    - mae 10% yn byw yn Abergwaun.
- mae 82% o dai â chymorth yn cynnwys gofal ar y safle 24/7.
- mae 34% o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed yn byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol.

Y prif ddewisiadau tai yw trefniant byw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir neu leoliad oedolyn. Mae'r rhan fwyaf o dai â chymorth ar gael yn Aberdaugleddau, Hwlffordd ac Abergwaun. Mae'r holl drefniadau byw â chymorth yn rhai i'w rhentu; nid yw'n ymddangos fod unrhyw drefniadau perchnogaeth tai ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Cymharol ychydig o ddewisiadau tai a llety sydd ar gael ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o Sir Benfro.

[9] Ni fydd pob unigolyn mewn lleoliad angen gwasanaeth 24 awr

Darperir cyfran gymharol uchel o dai â chymorth gan landlordiaid preifat; efallai fod hyn yn adlewyrchu amharodrwydd cymharol anarferol landlordiaid preifat i gynnig eiddo ar drefniadau gosod hirdymor i bobl ag anableddau.

B. Rhagfynegi'r boblogaeth o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu i'r dyfodol ar gyfer Sir Benfro.

Dangosir y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu, yn seiliedig ar y bobl a gofrestrwyd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Nhabl 34.

Tabl 34. Nifer y bobl ag anableddau dysgu ar gofrestri awdurdodau lleol (Cymru)

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---:|
| 2007 | 13,933 |
| 2008 | 14137 |
| 2009 | 14068 |
| 2010 | 14771 |
| 2011 | 14423 |
| 2012 | 14701 |
| 2013 | 15029 |
| 2014 | 15297 |
| 2015 | 15010 |
| 2016 | 14729 |
| 2017 | 14787 |

Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2017)

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol. Cafwyd gostyngiad yn y nifer cyffredinol rhwng 2014 a 2017, ond er 2007 mae'r boblogaeth gyffredinol o bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i awdurdodau lleol wedi cynyddu o 13,933 yn 2007 i 14,787 yn 2017, cynnydd o 6%. Mae dadansoddiad o'r data ar y gofrestr anableddau dysgu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn dangos mai un o'r prif resymau pam y cafwyd twf yn y boblogaeth yn gyffredinol yw cynnydd yn y boblogaeth 65+ oed, h.y. wrth i bobl ag anableddau dysgu gyrraedd lefelau disgwyliad oes nodweddiadol. Rheswm arall yw fod plant ag anableddau yn cyrraedd 18 oed ac yn dod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau oedolion (cyfnod ym mywydau pobl ifanc a elwir yn 'drosglwyddiad').

Dangosir sut y defnyddir y duedd gyffredinol ymhlith y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru ar gyfer y boblogaeth yn Sir Benfro yn Nhabl 35. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro yn newid yn unol â newidiadau yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru'n gyffredinol
- Rhagdybir cynnydd parhaus o 6% bob 10 mlynedd yn y boblogaeth o bobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro. Mae hyn yn cynnwys twf poblogaeth disgwyliedig ymhlith:
    - Poblogaeth gynyddol o oedolion hŷn ag anableddau dysgu
    - Pobl ifanc ag anableddau yn dod yn oedolion

Tabl 35. Amcangyfrif o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed hyd at 2037

| 2017 | 2022 | 2027 | 2032 | 2037 |
|---|---|---|---|---|
| 421 | 433 | 446 | 459 | 473 |

D. Defnyddio 'meincnodau' a gytunwyd ar gyfer mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu a amcangyfrifir hyd at 2037.

Mae hyn yn seiliedig ar:

- Gymhariaeth o 'feincnodau' cyfartalog Cymru ar gyfer y mathau gwahanol o dai/llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig felly'r defnydd o ofal preswyl.
- Rhagdybiaethau o ran ffactorau twf poblogaeth yn yr angen am dai.
- Dadansoddiad o'r ddarpariaeth o dai a llety ar hyn o bryd er mwyn adnabod bylchau posib yn y ddarpariaeth a gor/tan gyflenwad posib o fathau penodol o ddewisiadau tai/llety.
- Trafodaeth ansoddol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a staff eraill er mwyn adnabod bwriadau comisiynu i'r dyfodol.

Daw'r wybodaeth am y mathau gwahanol o dai/llety a ddefnyddir gan bobl ag anableddau dysgu o adroddiadau awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o'r data hwn[10] yn cynnig meincnodau cymharol ar gyfer Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin o'i gymharu â'r defnydd nodweddiadol o ofal preswyl a wneir gan bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru'n gyffredinol. Dangosir hyn yn Nhabl 36; mae'n dangos y canran o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin o'i gymharu â'r ganran nodweddiadol o oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl yng Nghymru'n gyffredinol.

[10] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/personswithlearningdisabilities-by-localauthority-service-agerange

Tabl 36. Oedolion ag anableddau dysgu a letyir mewn gofal preswyl (% o'r cyfanswm) o gymharu â Chymru.

| | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Sir Benfro | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd o ofal preswyl (yn % o gyfanswm y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu) | 17% | 19% | 22% | 9.69% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er mwyn amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol mae'n rhesymol rhagdybio y dylai'r defnydd o ofal preswyl ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ostwng i'r cyfartaledd Cymreig erbyn 2027, h.y. erbyn hynny na fydd mwy na 9.69% o'r boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yn byw mewn gofal preswyl yng Ngorllewin Cymru.

Ar gyfer Sir Benfro mae hyn yn awgrymu:

- Gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl o tua 22% i tua 10% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.
- Cynnydd cyfatebol yn y defnydd o dai/trefniadau byw â chymorth o tua 26% i tua 37% o'r boblogaeth o oedolion yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae 34% o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda'r teulu a gofalwyr anffurfiol. Wrth i rai o'r gofalwyr hynny heneiddio a/neu nad ydynt mwyach yn gallu cyflawni'r rôl ofalu hon am resymau eraill, gellir rhagdybio y bydd cyfran o'r 34% yma yn chwilio am fath arall o gartref. Ar sail y math yma o asesiad o anghenion tai ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a gynhaliwyd ar gyfer awdurdodau lleol eraill, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd hyd at 15%[11] o'r garfan hon o'r boblogaeth o oedolion yn chwilio am dai/llety arall erbyn 2037. Yn ymarferol, o ystyried y canran cymharol isel o oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw gyda'r teulu (o gymharu â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion) rhagdybiwyd y byddai hanner y gostyngiad hwn, 7.5%, (h.y. 10 o bobl) angen mathau eraill o gartref.

Pe bai'r angen ychwanegol hwn am lety yn cael ei ddiwallu'n gyfartal trwy dai/trefniadau byw â chymorth a lleoliadau oedolion, byddai hynny'n creu'r angen am:

- Dwf yn y ddarpariaeth o leoliadau oedolion er mwyn darparu 12% o'r holl lety sydd ar gael.
- Tai/byw â chymorth yn darparu 37% o'r holl lety sydd ar gael (gan gynnwys y gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl).

Dangosodd trafodaethau cychwynnol gyda chomisiynwyr Sir Benfro mai'r bwriad comisiynu i'r dyfodol yw:

- Lleihau'r defnydd o ofal preswyl.
- Cynyddu'r defnydd o dai/byw â chymorth, gan gynnwys ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.
- Cynyddu'r gymysgedd o ddewisiadau a lleoliadau tai â chymorth.

Mae dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol o dai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Sir Benfro yn dangos:

- Y cafwyd gor ddefnydd hanesyddol o ofal preswyl o gymharu â'r cyfartaledd Cymreig.
- Fod tai/byw â chymorth wedi cael eu canolbwyntio ar fodel tai a rennir.

Yn fyr, dangosir y meincnodau, yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, a ddefnyddir fel rhan o'r broses o amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol, yn Nhabl 37.

Tabl 37. Amcangyfrif anghenion tai i'r dyfodol: meincnodau mathau o dai/llety

| Math o lety/tai | Lefel y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2017 | Meincnod ar gyfer y ddarpariaeth (yn % o gyfanswm y boblogaeth) 2037 |
|---|---:|---:|
| Gofal preswyl | 22% | 10% |
| Cysylltu Bywydau (lleoliadau oedolion) | 4% | 12% |
| Tai â chymorth/byw â chymorth | 26% | 37% |
| Mathau eraill o dai annibynnol gyda phecyn gofal | 13% | 15% |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 34% | 26% |

E. Amcangyfrif anghenion tai/llety i'r dyfodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae hyn yn adnabod newidiadau mewn gofynion net am dai er mwyn diwallu'r angen am dai a ragfynegir a newidiadau yn y mathau o dai/llety sydd eu hangen ar gyfer ardal PGGC ac ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ddatblygwyd ar gyfer Cam D ar y ddarpariaeth bresennol o dai/llety yng Ngham B. Yna caiff hyn ei addasu ar gyfer y newid yn y boblogaeth a nodwyd dros amser o Gam C.

Ceir crynodeb isod o'r amcangyfrif o anghenion tai/llety yn Nhabl 38.

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 57 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2027. Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 92 i 76.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 18 i 36.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 110 uned i 143 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 56 uned i 62 uned.

Cynnydd cyffredinol yn yr angen am 119 o unedau tai/llety ychwanegol erbyn 2037.

Amcangyfrifir fod hyn yn cynrychioli:

- Gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal preswyl o 92 i 47.
- Cynnydd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau o 18 i 57.
- Cynnydd mewn tai â chymorth/trefniadau byw â chymorth o 110 uned i 175 uned.
- Cynnydd mewn tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth o 56 uned i 71 uned.

Tabl 38. Sir Benfro. Anghenion tai a llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu hyd at 2037

| | Y boblogaeth o oedolion 2017 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety | Y boblogaeth o oedolion 2027 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety | Y boblogaeth o oedolion 2037 | % meincnod ar gyfer y mathau o dai a llety |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o dai a llety | 421 | | 446 | | 473 | |
| Gofal preswyl | 92 | 22 | 76 | 17 | 47 | 10 |
| Cysylltu Bywydau | 18 | 4 | 36 | 8 | 57 | 12 |
| Tai/byw â chymorth | 110 | 26 | 143 | 32 | 175 | 37 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 56 | 13 | 62 | 14 | 71 | 15 |
| Byw gyda’r teulu/gofalwyr anffurfiol | 145 | 34 | 129 | 29 | 123 | 26 |
| Cyfansymiau | 421 | 100 | 446 | 100 | 473 | 100 |
| Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau) | | | 57 | | 119 | |

## 4. Cyd-destun a thueddiadau: Tai â chymorth hirdymor

Mae polisi cenedlaethol (DU) ar dai â chymorth hirdymor wedi canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar bobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth a chanddynt yr anghenion mwyaf cymhleth (yn dilyn achos camdriniaeth Winterbourne View). Er ei bod yn strategaeth gan Lywodraeth y DU sy'n canolbwyntio ar Loegr, gellir ystyried y canllawiau ategol yn rhai sy'n berthnasol i holl genhedloedd y DU. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar egwyddorion canllawiau diweddar "*Building the right support*[11]" (2015) a *"Build the right home*[12]" (2015). Dywed *Building the Right Support* y dylai pobl gael dewis o ymhle maen nhw'n byw a chyda phwy maen nhw'n byw. Gallai llety amhriodol a diffyg trefniadau cymorth cadarn olygu y bydd y lleoliad yn methu, a gallai arwain at orfod derbyn neu ail-dderbyn person i ysbyty.

Pwrpas cynyddu dewisiadau tai ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu'r ddau yw eu galluogi i gael y llety iawn gyda gofal a chymorth personol er mwyn cynnig atebion cynaliadwy. Rhagwelir y bydd hyn, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol yn y gymuned, hefyd yn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cleifion preswyl mewn ysbytai.

Mae tueddiadau diweddar o ran tai â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cynnwys tai â chymorth hirdymor wedi'u cyllido'n llwyr gan arian preifat, lle y mae'r prif landlord yn gymdeithas dai ond y cyfalaf ar gyfer y datblygiad yn cael ei ariannu'n breifat. Mae hyn yn fwy cyffredin yn Lloegr ond mae peth tystiolaeth o'r model hwn o ddatblygu yn digwydd yng Nghymru.

Cafodd buddsoddwyr preifat, sydd fel arfer yn gweithio gyda chymdeithasau tai bach, eu denu gan lefelau enillion cymharol uchel trwy rhenti a thaliadau gwasanaeth uwch sy'n tueddu cael eu codi yn y model hwn o dai â chymorth ac a gynhelir gan Fudd-dal Tai (trwy ddull Llywodraeth y DU o ariannu tai â chymorth).

Fodd bynnag, mae cymdeithasau tai prif ffrwd hefyd wedi datblygu cynlluniau tai â chymorth, yn enwedig felly trwy ddatblygu 'clystyrau' bychain o fflatiau gyda llecynnau cymunedol bychain yn cynnwys 6-10 o fflatiau 1-ystafell wely yn yr un adeilad, sef fel arfer 'micro' fersiwn o dai gofal ychwanegol, gydag awdurdodau lleol yn ariannu'r costau gofal 24/7.

Mae enghreifftiau o glystyrau adeiladu o'r newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cynnwys cynllun yn Kidderminster a ddatblygwyd gan Community Housing Group[13]. Mae'n floc o 10 fflat gyda llecyn cymunedol. Mae'r cynllun tai â chymorth hwn yn cynnwys gofal ar y safle 24/7 ac fe'i hanelir at bobl ag anableddau dysgu a chanddynt nifer o anghenion gofal gwahanol.

---

[11] https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/10/ld-nat-imp-plan-oct15.pdf

[12] https://www.england.nhs.uk/learningdisabilities/wp-content/uploads/sites/34/2015/11/building-right-home-guidance-housing.pdf

[13] https://www.sanctuary-supported-living.co.uk/hazel-court



O ran pobl ag anghenion cymhleth sydd angen symud o leoliadau cleifion preswyl y GIG, neu all fod mewn perygl o gael eu gosod mewn lleoliadau o'r fath, cafodd enghraifft o gynllun tai â chymorth pwrpasol ei datblygu gan MCCH[14]. Mae hon yn enghraifft o gynllun tai â chymorth, yn cynnwys 5 uned hunan-gynhaliol gyda chyfleusterau i staff, wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth yn gysylltiedig ag 'ymddygiadau heriol', e.e. yn cynnwys nodweddion fel waliau mewnol crymion (a gwaredadwy), gorffeniadau effaith ysgafn i loriau a waliau.



[14] http://www.mcch.org.uk/our-services/housing-services/index.aspx

Mae enghreifftiau eraill o dai cyfoes ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cynnwys;

Cynllun tai gan Advance Housing a ddatblygwyd yng Nghernyw ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chanddynt anghenion oed-gysylltiol. Mae hwn yn cynnwys bloc adeiladu o'r newydd o fflatiau sy'n cynnwys nodweddion a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn byw gyda dementia ac adnewyddu adeilad er mwyn darparu tai ar gyfer pobl ag anghenion lefel is.



'Clwstwr' o fflatiau hunan-gynhaliol yn gysylltiedig â chyfleuster coleg ar gyfer pobl ifanc yn mynd trwy gyfnod 'trosglwyddo' yn Swindon. Cafodd hwn ei ddatblygu gan Sanctuary Housing Association er mwyn darparu tai hunan-gynhaliol sy'n annog arferion byw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol (gyda chymorth ar y safle 24/7) a'r tenantiaid yn mynychu colegau lleol.



Awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau tai â chymorth adeiladu o'r newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu e.e. Cyngor Sir Hampshire. Mae hyn yn rhan o dueddiad bychan ond cynyddol lle y mae awdurdodau lleol yn datblygu tai â chymorth eu hunain er mwyn sicrhau'r cynlluniau mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol a darparu incwm o eiddo yn ogystal â darparu cartrefi o ansawdd uchel.

**Cyd-destun Polisi: Gorllewin Cymru**

Mae'r amcanion polisi ar draws Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn cynnwys cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw'n dda ac ehangu'r ystod o ddewisiadau tai sydd ar gael. Bwriedir i'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol gyflawni'r amcanion polisi hyn:

- *Strategaeth Anableddau Dysgu Ceredigion 2018-2023*
- *Strategaeth Anableddau Dysgu Sir Benfro 2017-2022*
- *Strategaeth Anableddau Dysgu Sir Gaerfyrddin 2018-2022*
- *Datganiad ar Gyflwr y Farchnad ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu 2018*

**Polisi ariannu tai â chymorth**

Ym mis Awst 2018 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hagwedd at ariannu llety â chymorth i'r dyfodol, gan gynnwys tai â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau. O'r herwydd, nid oes bwriad mwyach i gyflwyno newidiadau i'r system bresennol o dalu costau tai trwy Fudd-dal Tai. Bydd y rheoliadau Budd-dal Tai presennol yn parhau i ganiatáu ariannu costau tai cymwys mewn tai â chymorth a thai i bobl hŷn ar gyfer unigolion cymwys.

## 5. Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru: Crynodeb o anghenion tai a goblygiadau comisiynu

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r amcangyfrifon o'r angen i'r dyfodol am dai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu hyd at 2037 ar draws ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Tabl 39. Sir Gaerfyrddin: Amcangyfrif o anghenion tai hyd at 2037

| Sir Gaerfyrddin | Cyflenwad presennol | Amcangyfrif o'r angen 2027 | Amcangyfrif o'r angen 2037 |
|---|---|---|---|
| *Poblogaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu* | *677* | *718* | *761* |
| Mathau o dai a llety | | | |
| Gofal preswyl | 115 | 86 | 68 |
| Cysylltu Bywydau | 47 | 57 | 76 |
| Tai/byw â chymorth | 136 | 215 | 251 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 32 | 36 | 46 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 347 | 323 | 319 |
| Cyfansymiau | 677 | 718 | 761 |
| **Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau)** | | **94** | **158** |

Tabl 40. Ceredigion: Amcangyfrif o anghenion tai hyd at 2037

| Ceredigion | Cyflenwad presennol | Amcangyfrif o'r angen 2027 | Amcangyfrif o'r angen 2037 |
|---|---|---|---|
| *Poblogaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu* | *306* | *324* | *344* |
| Mathau o dai a llety | | | |
| Gofal preswyl | 59 | 49 | 34 |
| Cysylltu Bywydau | 11 | 19 | 28 |
| Tai/byw â chymorth | 53 | 75 | 103 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 41 | 45 | 52 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 142 | 136 | 127 |
| Cyfansymiau | 306 | 324 | 344 |
| **Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau)** | | **34** | **77** |

Tabl 41. Sir Benfro: Amcangyfrif o anghenion tai hyd at 2037

| Sir Benfro | Cyflenwad presennol | Amcangyfrif o'r angen 2027 | Amcangyfrif o'r angen 2037 |
|---|---|---|---|
| *Poblogaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu* | *421* | *446* | *473* |
| Mathau o dai a llety | | | |
| Gofal preswyl | 92 | 76 | 47 |
| Cysylltu Bywydau | 18 | 36 | 57 |
| Tai/byw â chymorth | 110 | 143 | 175 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 56 | 62 | 71 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 145 | 129 | 123 |
| Cyfansymiau | 421 | 446 | 473 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau)** | | **57** | **119** |

Tabl 42. Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru: Amcangyfrif o anghenion tai hyd at 2037

| Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru | Cyflenwad presennol | Amcangyfrif o'r angen 2027 | Amcangyfrif o'r angen 2037 |
|---|---|---|---|
| *Poblogaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu* | *1404* | *1488* | *1578* |
| Mathau o dai a llety | | | |
| Gofal preswyl | 266 | 211 | 149 |
| Cysylltu Bywydau | 76 | 112 | 161 |
| Tai/byw â chymorth | 299 | 433 | 529 |
| Tai prif ffrwd gyda phecyn gofal/cymorth | 129 | 143 | 169 |
| Byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol | 634 | 588 | 569 |
| Cyfansymiau | 1404 | 1488 | 1578 |
| **Angen ychwanegol net am dai a llety (unedau)** | | **185** | **354** |

Yn fyr:

- Gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl o 266 lle i 149 lle.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o dai â chymorth o 299 o unedau tai i 529 o unedau tai.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o leoedd Cysylltu Bywydau o 76 lle i 161 lles.
- Cynnydd yn yr unedau tai prif ffrwd gyda chymorth o 129 i 169 o unedau tai.
- Gostyngiad yn nifer yr oedolion ag anableddau dysgu yn byw gyda gofalwyr teulu o 634 i 569 o bobl.

**Goblygiadau ar gyfer comisiynwyr Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

Mae 46% o oedolion ag anableddau dysgu 18+ oed yn byw gyda'r teulu/gofalwyr anffurfiol.

Mae dewisiadau llety a thai yn gymharol gyfyngedig; y prif ddewisiadau yw lle mewn cartref gofal preswyl neu fyw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir. Yn hanesyddol, cafwyd tueddiad i fod yn orddibynnol ar ddefnyddio gofal preswyl sydd yn llawer uwch na'r cyfartaledd Cymreig.

Mae tai â chymorth yn tueddu bod ar gael yn bennaf mewn lleoliadau lle y bu eiddo ar gael am gost isel. Cymharol ychydig o ddewisiadau tai a llety sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ardaloedd mwy gwledig.

Mae'r holl drefniadau byw â chymorth yn rhai i'w rhentu; nid yw'n ymddangos fod unrhyw drefniadau perchnogaeth tai ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth o dai ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth o ran anghenion ymddygiad neu anghenion iechyd/gofal cymdeithasol cymhleth yn gymharol gyfyngedig.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn ar ehangu dewisiadau tai a chwrdd â'r angen am dai a llety ychwanegol hyd at 2037, mae'r goblygiadau comisiynu yn cynnwys:

- Datblygu, ar raddfa sy'n gweddu i leoliadau yng Ngorllewin Cymru, 'glystyrau' bychain o fflatiau hunan-gynhaliol (6-10 uned) gyda chymorth 24/7 er mwyn cynnig dewis arall yn lle tai â chymorth a rennir a gofal preswyl.
- Datblygu cynlluniau tai â chymorth ar sail ranbarthol ar gyfer pobl a chanddynt yr anghenion mwyaf cymhleth er mwyn osgoi gorfod defnyddio gofal preswyl.
- Ail-ystyried y defnydd presennol o dai â chymorth a rennir er mwyn adnabod unrhyw unigolion allai symud ymlaen i fathau annibynnol o dai (megis clystyrau o fflatiau mewn tai prif ffrwd).
- Datblygu digon o dai wedi'u haddasu ar gyfer defnydd llawn i gadeiriau olwyn (fel arfer mewn tai a rennir neu mewn clwstwr o fflatiau).
- Datblygu'r cynllun Cysylltu Bywydau ymhellach, e.e. er mwyn gallu rhoi gwell cefnogaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth i 'symud ymlaen' wedi iddynt feithrin rhagor o sgiliau byw'n annibynnol; chwilio am ofalwyr all gynnig mwy o gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a chanddynt anghenion mwy heriol.
- Ystyried ail-ddefnyddio neu 'ail-fodelu' rhai o'r gwasanaethau gofal preswyl presennol, gan gynnwys y posibilrwydd o 'ddad-gofrestru'.
- Gwneud darpariaeth ychwanegol mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol presennol a newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Datblygu atgyfeiriadau gwybodaeth a chyngor ar gyfer teuluoedd/gofalwyr pobl ag anableddau dysgu sy'n esbonio'r dewisiadau ar gyfer buddsoddi mewn/datblygu dewisiadau tai ar gyfer yr aelod o'u teulu sy'n anabl yng nghyd-destun cynnig eglurder o ran faint o arian mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu ar gyfer pecynnau gofal mewn trefniadau o'r fath.
- Cynllunio'n systematig gyda gofalwyr hŷn (a chanddynt blant wedi tyfu i fyny ag anableddau dysgu yn byw gyda nhw) ar gyfer y dewisiadau tai a gofal/cymorth sydd eu hangen ar gyfer eu plant sy'n oedolion, yn enwedig felly ar gyfer gofalwyr 75 oed a throsodd.

- Adnabod carfannau o bobl ifanc 15-17 oed, yn enwedig felly rai ag anghenion cymhleth, fyddai fel arall mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal preswyl, er mwyn comisiynu dewisiadau byw â chymorth eraill.
- Gweithio gyda nifer o ddarparwyr tai er mwyn meithrin diddordeb mewn datblygu cymysgedd ehangach o ddewisiadau tai â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys eu gwybodaeth am a'u harbenigedd yn, er enghraifft, datblygu cynlluniau tai â chymorth cost uwch ac wedi'u hariannu'n breifat gan ddefnyddio rheoliadau 'llety eithriedig' Budd-dal Tai.